**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1374
Ein cyf/Our ref JJ/03356/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

petitions@senedd.cymru

18 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-06-1374. Rwyf wedi ystyried yr ohebiaeth bellach a anfonwyd gan y deisebydd.

Mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion i ymgynghoriad 2022 yn dal i fynd rhagddo, er bod fy swyddogion yn dweud wrthyf nad oedd cytundeb rhwng yr ymatebwyr ynglŷn â chadw'r hawliau datblygu estynedig a ganiateir ar gyfer carafanio a gwersylla a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod rhai materion pwysig y mae angen eu hystyried. Yn eu plith y mae'r effaith ar drigolion lleol drwy ddod i gysylltiad â mwy o sŵn, mwg, a mathau arall o aflonyddwch drwy gydol y flwyddyn, a hefyd bryderon am ddiogelwch ar y ffyrdd oherwydd y byddai mwy o draffig ar lonydd gwledig anaddas am gyfnodau hirach.

Rydym, wrth inni edrych ar becyn ehangach o newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir, yn parhau i ystyried cyfnod dros dro o 56 o ddiwrnodau ar gyfer gwersylla, yn amodol ar fesurau diogelu priodol. Mae'r polisi ar y newidiadau hyn yn dal i gael ei ddatblygu a bydd ymgynghoriad yn ei gylch yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.